

Lolfa Lên, Llenyddiaeth Cymru, Eisteddfod Genedlaethol Cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru

# Adroddiad Blynyddol y Gymraeg 2015/16

# Cynllun Camau Gweithredu 2016/17

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

# 1. Cyflwyniad

Sefydla Deddf y Gymraeg 1993 yr egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth drafod busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus - megis Cyngor Celfyddydau Cymru - gyhoeddi Cynllun y Gymraeg sy'n egluro sut y bwriadant gyflawni'r ymrwymiad hwn.

Hwn yw Adroddiad Blynyddol Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer 2015/16. Darpara wybodaeth am ein perfformiad yn ôl yr amcanion, yr uchelgais a'r gofynion a nodir yng Nghynllun y Gymraeg.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r ddeddfwriaeth a lywodraetha faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn esblygu ac yn newid. Rhoes Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gyd-destun newydd ar gyfer yr iaith gan fod statws swyddogol wedi'i sefydlu ar gyfer y Gymraeg yng Nghymru drwy gydsyniad Brenhinol.

Hefyd y Mesur a sefydlodd Gomisiynydd y Gymraeg yng Nghymru. Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am orfodi dyletswyddau cyfreithiol y Mesur drwy gyfres o Safonau.

Er 2014 mae Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd newydd y Gymraeg yn ymgynghori ynghylch trefniadau newydd i amddiffyn a hyrwyddo statws y Gymraeg. Gorffennwyd proses ddeddfwriaethol Cam 2 o Fesur y Gymraeg (Cymru) yn Chwefror 2016 gyda chyhoeddi Safonau newydd Cam 2. A ninnau'n un o'r cyrff penodol yr effeithia'r ddeddfwriaeth arno, rhaid i Gyngor Celfyddydau Cymru gydymffurfio â'r Safonau hyn.

Ar 31 Mawrth 2016 derbyniasom ein Hysbysiad Cydymffurfedd drafft a ddechreuodd broses ffurfiol o ymgynghori. Disgrifiodd yr Hysbysiad Cydymffurfedd drafft y gofynion arfaethedig dan bob un o'r Safonau i'n sefydliad. Yn sgil ein hymateb i'r ymgynghoriad, derbyniasom ein Hysbysiad Cydymffurfedd terfynol ar 25 Gorffennaf 2016. Cynhwysai hwn y diwygiadau a awgrymasom ninnau i'r Comisiynydd. Ffurfia'r paratoadau er mwyn cydymffurfio â'r Safonau hyn y sail i lawer o Gynllun Gweithredu'r Gymraeg am y flwyddyn a ddaw.

Mae copi o'n Cynllun yn Atodiad 2.
Yn 2016/17 y diweddarwn Gynllun y Gymraeg i adlewyrchu'r Safonau newydd.

Yn gyffredinol, bydd y Safonau'n gwneud y canlynol:

- rhoi rhagor o eglurder i sefydliadau am eu dyletswyddau o ran y Gymraeg
- rhoi mwy o eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg
- sicrhau gwasanaethau Cymraeg cyson ar draws sefydliadau a gwella ansawdd y gwasanaethau
- ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn modd rhesymol a chymesur

## 2. Ein hymrwymiad i'r Gymraeg

Mae gan y Cyngor ymrwymiad digamsyniol i bwysigrwydd datblygu a hyrwyddo'r celfyddydau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Un agwedd amlwg ar sut y mynegwn ein hunain yw'r geiriau a'r iaith a ddefnyddiwn. Cenedl ddwyieithog ydym - yn gyfreithiol, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol - a chenedl o unigolion a chymunedau. Y Gymraeg yn anad dim sy'n gwneud Cymru'n unigryw. Yr iaith yw'r modd inni ddeall a mwynhau llenyddiaeth a diwylliant sy'n eithriadol o gyfoethog. Ffynnu y mae'r celfyddydau yn y fath sefyllfa. Mae'r celfyddydau'n elfen allweddol wrth gynnal swyddogaeth hollbwysig y Gymraeg ym mywyd Cymru.

Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn amddiffyn yn gryf hawl pobl i archwilio eu diwylliant a'u creadigrwydd unigryw drwy eu dewis iaith boed y bobl hynny'n ddefnyddwyr, yn ymgyfranogwyr neu'n artistiaid.

### Cynllun y Gymraeg

Mae ein hymrwymiad i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei ymgorffori yng Nghynllun y Gymraeg. Noda'r cynllun hwn y camau gweithredu a gymerwn i sicrhau y triniwn y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal ein busnes cyhoeddus.

Yn gymorth i fonitro cynnydd a llywio ein gwaith, sefydlasom **Grŵp Monitro'r Gymraeg**. Dan gadeiryddiaeth aelod o'n Cyngor, cynnwys gynrychiolwyr staff o bob rhan o'n sefydliad. Mae'r Grŵp yn ymgyfarfod bob chwarter.

### Grŵp Monitro'r Gymraeg

Sefydlwyd cylch gorchwyl Grŵp Monitro'r Gymraeg (o hyn ymlaen, y Grŵp) yn ei gyfarfod cychwynnol ar 12 Mai 2003. (Caiff y cylch gorchwyl ei adolygu ac, os oes angen, ei ddiwygio'n flynyddol gan y Cyngor bob mis Mawrth).

#### Swyddogaeth y Grŵp

1. Adolygu a monitro datblygu polisïau a gweithdrefnau (a chyfrannu atynt) sy'n galluogi'r Cyngor i ddilyn agenda arloesol i symud ymlaen ei wasanaeth dwyieithog a ddisgrifir yng Nghynllun y Gymraeg a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

2. Cynorthwyo'r Cyngor a'i swyddogion i sicrhau bod gweithgareddau'r Cyngor yn y maes hwn yn gyson ag uchelgais Deddf Lles a Chenedlaethau Dyfodol Llywodraeth Cymru.

3. Cynorthwyo'r Cyngor a'i swyddogion wrth ymgorffori dwyieithrwydd yn agwedd feunyddiol ar fuddsoddiadau, prosesau a rhaglenni gwaith Cyngor Celfyddydau Cymru.

4. Cyfrannu at fonitro cydymffurfedd Cyngor Celfyddydau Cymru â phob gofyniad deddfwriaethol a statudol perthnasol gan gynnwys unrhyw ddyletswyddau cyffredinol a phenodol sy'n gysylltiedig gan gynnwys monitro gweithredu Cynllun Gweithredu'r Gymraeg.

5. Cynghori ynghylch datblygu, gweithredu a monitro prosiectau datblygu penodol.

6. Cynnig arweiniad a chyngor i'w sefydliadau sy'n cael arian refeniw, pob sefydliad a gaiff arian prosiect ganddo ac eraill sy'n dibynnu ar ei rwydwaith am sut i adlewyrchu natur ddwyieithog y Gymru sydd ohoni.

7. Sicrha'r Grŵp y glynir at y swyddogaethau hyn drwy fabwysiadu'r canlynol:

   a) Goruchwyliaeth weithredol o effeithiolrwydd gweithgareddau Cyngor Celfyddydau Cymru wrth arddangos ymrwymiad i ddwyieithrwydd yn egwyddor lywodraethol sylfaenol ac amcan yn ei Siarter Frenhinol

   b) Monitro gweithredu'r gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol (gan gynnwys Safonau'r Gymraeg, Cynllun y Gymraeg a'r Cynllun Camau Gweithredu ac adolygiad o'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb)

   c) Cynnig arweiniad a chyngor ynghylch swyddogaeth y cyfieithydd mewnol

   d) Ymdrin â chwynion o natur ieithyddol

   e) Cefnogi defnyddio'r Gymraeg ym myd y celfyddydau

   f) Darparu cyngor ac arweiniad ynghylch dwyieithrwydd er budd artistiaid a sefydliadau celfyddydol

   g) Cynghori ynghylch mentrau sy'n cynnig cymorth ym maes hyfforddiant a datblygiad proffesiynol i staff Cyngor Celfyddydau Cymru

   h) Gwneud argymhellion i'r Uwch Tîm Rheoli a'r Cyngor am unrhyw rai o'r uchod.

## 3. Ystadegau allweddol

Mae'n bwysig inni ddeall orau y gallwn fath ac ystod materion Cymraeg fel y codant ym mywyd cyfoes Cymru.

### Y boblogaeth Gymraeg

Dengys gwybodaeth a ddaw o'r Cyfrifiad y tueddiadau poblogaeth canlynol.

| | 1991 | 2001 | 2011 |
|---|---|---|---|
| Canran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg | 18.7% | 20.8% | 19% |
| Nifer y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg | 508,000 | 582,000 | 562,000 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 1991, 2001 a 2011

Er bod y ganran a'r nifer o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru wedi gostwng rhwng 2001 a 2011, y gwir plaen yw bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn uwch na'r hyn a gofnodwyd ym 1991.

Mae'r gwahaniaethau rhwng 2001 a 2011 yn amrywio'n ôl grŵp oed.

Cafwyd cynnydd sylweddol ar gyfer plant iau (yn yr oed 3-4), ychydig o gynnydd ar gyfer oedolion (yn yr oed 20-44) a lleihad ar gyfer pob grŵp oed arall.

| | 3-4 oed | | 20-44 oed | |
|---|---|---|---|---|
| | 2001 | 2011 | 2001 | 2011 |
| Canran o'r grŵp oed sy'n gallu siarad Cymraeg | 18.8% | 23.3% | 15.5% | 15.6% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 a 2011

### Mynychu'r celfyddydau ac ymgyfranogi ohonynt

Mae gennym ddiddordeb penodol mewn annog pobl i fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt.

Bob blwyddyn rydym yn comisiynu gwaith ymchwil annibynnol – Omnibws Cymru – i asesu'r hyn sy'n digwydd ymhlith cynulleidfaoedd ac ymgyfranogwyr Cymraeg eu hiaith.

<u>Arolwg Omnibws i Oedolion</u>

Dyma'r ffigyrau ar gyfer poblogaeth yr oedolion:


| Canran y siaradwyr Cymraeg sy'n mynychu'r celfyddydau neu'n ymgyfranogi ohonynt unwaith y flwyddyn neu'n amlach 2010-15 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
| Mynychiadau | 80% | 78% | 79% | 83% | 81% | 81% |
| Ymgyfranogi | 37% | 37% | 46% | 44% | 47% | 49% |

Ffynhonnell: Adroddiad Omnibws Cymru, Ymchwil Beaufort 2010, 2011, 2012, 2013, 2014 a 2015.

- Yn 2015 arhosai lefelau mynychu ymhlith oedolion Cymraeg yn gyson â lefelau 2014. Aeth 81% o'r boblogaeth yn ei hoed i ddigwyddiad celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach.


- Cynyddodd lefelau ymgyfranogi ymhlith oedolion Cymraeg yn 2015 o'u cymharu â'r flwyddyn cynt, sef cynnydd o 2 bwynt canran. Cynrychiola hyn y lefelau uchaf o ymgyfranogi ymhlith siaradwyr Cymraeg er 2010.

Data'r Gymraeg sy'n dod o adroddiad arolwg Omnibws 2015




Sail: Pob oedolyn (2014:1,003; 2015:1,000)
Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru 2014/2015

- Yn 2015, cynyddodd y bwlch rhwng siaradwyr Cymraeg a'r rhai di-Gymraeg gan un pwynt canran a hanner yn 2014 i 3 phwynt canran (2.8). Er gwaethaf y cynnydd blwyddyn ar flwyddyn yn y bwlch rhwng y ddau grŵp, erys y bwlch o hyd yn gulach na'r gwahaniaeth o 10 pwynt canran a fu yn 2013.




Sail: Pob oedolyn (2014:1,003; 2015:1,000)
Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru 2014/2015

- Mae siaradwyr Cymraeg o hyd yn debycach o ymgyfranogi o weithgarwch celfyddydol (48.9%) na'r di-Gymraeg (38.1%).

- Cynyddodd y bwlch ymgyfranogi rhwng siaradwyr Cymraeg a'r rhai di-Gymraeg i un pwynt canran ar ddeg (10.8) yn 2015, o'i gymharu â naw pwynt canran yn 2014.

Arolwg Omnibws y Plant


| Canran y plant Cymraeg (7-18 oed) sy'n mynychu'r celfyddydau neu'n ymgyfranogi ohonynt unwaith y flwyddyn neu'n amlach 2010-15 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
| Mynychiadau | 80% | 86% | 85% | 89% | 91% | 88% |
| Ymgyfranogi | 82% | 90% | 87% | 88% | 86% | 90% |

Ffynhonnell: Adroddiad Omnibws Cymru, Ymchwil Beaufort 2010, 2011, 2012, 2013, 2014 a 2015

- Roedd lefelau mynychu ymhlith plant a phobl ifainc Cymraeg eu hiaith yng Nghymru wedi cynyddu gan 3 phwynt canran yn 2015, o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol, i 88% sy'n mynychu digwyddiad celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach.


- Mae lefelau ymgyfranogi ymhlith plant a phobl ifainc Cymraeg eu hiaith wedi cynyddu o'u cymharu â 2014 gan 4 pwynt canran i 90% sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach.

Data'r Gymraeg sy'n dod o adroddiad arolwg Omnibws 2015




Sail: Pawb yn yr oed 7-18 (o leiaf 1,000 y don)
Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2013-2015

Er 2011 mae plant a phobl ifainc sy'n siarad unrhyw Gymraeg â lefelau mynychu uwch o'u cymharu â rhai heb Gymraeg (gwahaniaeth o 7.6 pwynt canran yn 2014, er enghraifft). Ond eleni mae lefelau mynychu i siaradwyr Cymraeg (88.4%) hanner pwynt canran yn is na lefelau plant di-Gymraeg (88.9%). Mae hyn felly yn newid yn nhuedd y pum mlynedd a chalonogol yw nodi culhau yn y bwlch rhwng y ddau grŵp dros y flwyddyn ddiwethaf.




Sail: Pawb yn yr oed 7-18 (o leiaf 1,000 y don)
Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant 2013-2015

Erys cyfraddau ymgyfranogi ymhlith siaradwyr Cymraeg yn uwch yn 2015 gyda 90.3% o'r rhai sy'n medru siarad Cymraeg i ryw lefel yn cymryd rhan yn y celfyddydau unwaith y flwyddyn neu'n amlach o'u cymharu â 87.4% o'r rhai di-Gymraeg.

# 4. Gweithgarwch a ariennir

Arian y Loteri

Er nad oes raid inni ei wneud yn ôl y gyfraith, rydym yn annog pob sefydliad i geisio gweithredu yn ôl ysbryd y Ddeddf. Rydym yn gwahodd sefydliadau yn eu ceisiadau am arian i fynd i'r afael â sut y byddant yn adlewyrchu natur ddwyieithog y gymuned y maent yn gweithredu yn ei chanol a natur y cynulleidfaoedd y maent yn eu targedu.

Yn ystod 2015/16 arianasom 591 prosiect Loteri sy'n lleihad nodedig o'i gymharu â'r ddwy flynedd blaenorol. O'u ceisiadau y gwelir eu bod yn darparu prosiectau yn yr ieithoedd canlynol:

| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y prosiectau loteri a ariannwyd | 450 | 589 | 553 | 860 | 722 | 591 |
| Saesneg | 352 | 477 | 259 | 440 | 359 | 298 |
| Cymraeg/Saesneg | 77 | 81 | 249 | 361 | 302 | 242 |
| Cymraeg | 21 | 30 | 28 | 33 | 41 | 28 |
| Amhenodol | | | 16 | 26 | 16 | 20 |
| Arall | | | 1 | 0 | 4 | 3 |

Dengys y ffigyrau uchod amrywiadau yn nifer y prosiectau a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg a dwyieithog. Fel y nodir mewn adroddiadau blaenorol, mae'n debyg bod yr amrywiadau'n ganlyniad i eiriad y ffurflen gais yn hytrach na chynnydd trawiadol yn y gweithgarwch dwyieithog. Cedwir llygad barcud ar y tueddiadau hyn.

Portffolio Celfyddydol Cymru

Portffolio Celfyddydol Cymru yw'r sefydliadau sy'n cael arian grant rheolaidd oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru, yn flynyddol, tuag at eu rhaglen weithgarwch am y flwyddyn.

Cynnwys ein Portffolio gwmnïau cenedlaethol ag enw da rhyngwladol, rhai sy'n gweithredu ar lefel lai o lawer sy'n dewis yn aml i weithio gyda chymunedau mwy lleol. Disgwylir y bydd gan sefydliadau mwy eu Cynllun Cymraeg eu hunain a bydd yn rhaid iddynt fabwysiadu'r Safonau yn llawn.

Mae dod â gweithgarwch celfyddydol o safon i gyrraedd haws rhagor o bobl ledled Cymru yn un o feysydd allweddol ein strategaeth datblygu'r celfyddydau, *Ysbrydoli*. Felly mae'n Portffolio yn hynod bwysig- o ran gosod pinnau bawd yn y map, fel petai, sef darparu hygyrchedd lleol i'r celfyddydau - mae'n darparu pwyntiau sefydlog yn eu hardaloedd sy'n darparu rhaglen weithgarwch ar hyd y flwyddyn.

O gofio bod y sefydliadau hyn yn bartneriaid mor hanfodol wrth wireddu ein gweledigaeth i gelfyddydau Cymru, rydym yn disgwyl iddynt lynu'n wresog wrth ysbryd yr ymrwymedigaethau a

wnawn yng Nghynllun y Gymraeg. Diffinnir ein disgwyliadau yn y cytundebau ariannu sy'n bodoli rhwng y sefydliadau a ni.

Adolygir perfformiad Portffolio Celfyddydol Cymru bob blwyddyn mewn Cyfarfod Adolygu Blynyddol.

O'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r broses hon yn ystod 2015/16, mae'n glir bod lefel ymgysylltiad y Portffolio â'r Gymraeg yn aros yn anghyson. Serch hynny, bu gwellhad yn nifer y sefydliadau a ddaeth yn agosach at ddiwallu ein disgwyliadau. Gellid disgrifio rhai sefydliadau'n fodelau o'r ymarfer gorau o ran cyfathrebu dwyieithog (gwefannau, marchnata, rhaglenni) a darparu rhaglen fwy. Serch hynny, ymddengys fod eraill yn aros yn ddifater ynghylch eu dyletswyddau felly gweithredwn yn awr i fynd i'r afael â hyn dros y flwyddyn.

Yn y cytundebau ariannu 2015/16, mae gweithredu gwefan ddwyieithog unwaith eto'n ofyniad canolog i bob aelod o'r Portffolio. Ymgymerwyd ag archwiliad pellach o wefannau'r Portffolio yn Ionawr 2016. Cafwyd cynnydd ac erbyn hyn mae dim ond 3 sefydliad sydd heb unrhyw gynnwys Cymraeg ar eu gwefan o'u cymharu â 7 yn y flwyddyn flaenorol. Mae gan 21 ddarpariaeth sy'n rhannol ddwyieithog yn unig. Roedd gan Gytundeb Arian 2015/16 dargedau penodol ar gyfer y sefydliadau a fethai â chydymffurfio â'n gofyniad dwyieithog. Disgwylir i aelodau o Bortffolio Celfyddydol Cymru sy'n methu o hyd yn y maes hwn i ddatrys hyn yn flaenoriaeth yn 2016/17.

Diddorol yw nodi nad yw maint sefydliad – neu lefel ei incwm o ran hynny – ynddynt eu hunain yn arwyddion o allu'r sefydliad i ddarparu gwasanaeth dwyieithog. Mae'r pwynt hwn o bwys oherwydd bod nifer o sefydliadau wedi dadlau y byddai cynhyrchu deunyddiau marchnata yn y Gymraeg yn cymryd arian oddi wrth eu cynnyrch cyhoeddus, er enghraifft. Mewn geiriau eraill, mae dwyieithrwydd yn rhy ddrud. Yn ymarferol, mae nifer o sefydliadau sy'n cael llai na £200,000 o arian refeniw yn esiamplau gwych o ran eu darpariaeth ddwyieithog, lle mae eraill ar y llaw arall a gaiff lawer yn fwy o arian gan Gyngor Celfyddydau Cymru wedi gwneud fawr o ymdrech neu ddim ymdrech yn y byd i fynd i'r afael â'r agwedd hon ar eu gwasanaeth. Ni allwn ganiatáu i hyn barhau.

Cynullasom nifer o symposia marchnata rhanbarthol yn Chwarter 2 o 2015 i drafod yn benodol ddwyieithrwydd yn y celfyddydau. Yn ogystal â hyn, datblygwyd pecyn gwybodaeth ar-lein sydd ar gael o'n gwefan i ddarparu cymorth pellach yn barhaus.

Cyhoeddodd y rhan fwyaf o'n Cwmnïau Cenedlaethol Bolisi Cymraeg. Rhoddwyd estyniad amser i un sefydliad sydd ar hyn o bryd yn mynd drwy broses o newid sefydliadol.

Rydym wrth gwrs â diddordeb byw yng ngraddfa gweithgarwch Cymraeg sy'n cael ei hyrwyddo a'i darparu gan sefydliadau'r Portffolio. Mae'r ystadegau dilynol yn ystyried lefelau o fynychu ac ymgyfranogi.

| Mynychiadau Cymraeg | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2014/15 | 2015/16 | Canran y newid | 2014/15 | 2015/16 | Canran y newid |
| | Digwyddiadau | Digwyddiadau | Digwyddiadau | Mynychiadau | Mynychiadau | Mynychiadau |
| Sgriniadau ffilmiau | 38 | 38 | 0 | 2,260 | 1,641 | -27.4 |
| Perfformiadau gan gwmnïau sy'n teithio | 440 | 482 | 9.5 | 33,670 | 53,809 | 59.8 |
| Perfformiadau mewn lleoliadau sy'n cyflwyno | 391 | 475 | 21.5 | 54,924 | 72,862 | 32.7 |
| Cyfanswm | 869 | 995 | 14.5 | 90,854 | 128,312 | 41.2 |

Ffynhonnell: Arolwg Cyngor Celfyddydau Cymru o'r sefydliadau sy'n cael arian refeniw
Sail: 69 sefydliad yn 2014/15 a 2015/16

| Ymgyfranogi Cymraeg | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2014/15 | 2015/16 | Canran y newid | 2014/15 | 2015/16 | Canran y newid |
| | Sesiynau | Sesiynau | Sesiynau | Mynychiadau | Mynychiadau | Mynychiadau |
| Plant a phobl ifainc | 2,895 | 3,498 | 20.8 | 79,164 | 101,536 | 28.3 |
| Cyffredinol | 3,373 | 4,331 | 28.4 | 51,186 | 55,242 | 7.9 |
| Cyfanswm | 6,268 | 7,829 | 24.9 | 130,350 | 156,778 | 20.3 |

Ffynhonnell: Arolwg Cyngor Celfyddydau Cymru o'r sefydliadau sy'n cael arian refeniw
Sail: 69 sefydliad yn 2014/15 a 2015/16

## Cynllun Noson Allan

Noson Allan yw ein cynllun teithio cymunedol bychan. Mae'r cynllun yn gweithio gyda chymunedau lleol a hyrwyddwyr i lwyfannu perfformiadau mewn lleoedd na fyddai fel arall yn cael hygyrchedd hawdd i ddarpariaeth gelfyddydol o safon.

Pery canran y cynyrchiadau Cymraeg a hyrwyddir drwy'r cynllun i godi ac erbyn hyn mae'n 30% o'r holl archebiadau (161 o 535 sioe)

Gallwn hefyd erbyn hyn fesur perfformiadau dwyieithog ac ychwanegwyd y ffigwr hwn at y tabl isod:

| | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer perfformiadau Noson Allan | 589 | 574 | 580 | 574 | 533 | 521 | 535 |
| Nifer yn y Gymraeg | 138 | 142 | 113 | 140 | 140 | 147 | 160 |
| Canran y cynyrchiadau Cymraeg | 23.4% | 24.7% | 19.5% | 24.4% | 26.3% | 28.2% | 30% |
| Perfformiadau dwyieithog | | | | | | | 41 (8%) |

Yn ystod 2015/16, roedd 17 o'r 22 o awdurdodau lleol Cymru wedi croesawu perfformiad Noson Allan drwy gyfrwng y Gymraeg. O gynnwys sioeau dwyieithog, mae'r ffigwr yn codi i 20.

| | Sioeau Cymraeg | | | | Sioeau dwyieithog |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2014/15 | 2014/15 | 2015/16 | 2015/16 | 2015/16 |
| | nifer | % | nifer | % | nifer |
| Môn | 15 | 10.3 | 21 | 13.1 | 0 |
| Blaenau Gwent | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1 | 0.7 | 1 | 0.6 | 1 |
| Caerffili | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Caerdydd | 2 | 1.4 | 3 | 1.9 | 1 |
| Sir Gâr | 12 | 8.2 | 18 | 11.3 | 2 |

| | Sioeau Cymraeg | | | | Sioeau dwyieithog |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2014/15 nifer | 2014/15 % | 2015/16 nifer | 2015/16 % | 2015/16 nifer |
| Môn | 15 | 10.3 | 21 | 13.1 | 0 |
| Blaenau Gwent | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1 | 0.7 | 1 | 0.6 | 1 |
| Caerffili | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Caerdydd | 2 | 1.4 | 3 | 1.9 | 1 |
| Sir Gâr | 12 | 8.2 | 18 | 11.3 | 2 |
| Sir Geredigion | 6 | 4.1 | 1 | 0.624 | 5 |
| Conwy | 11 | 7.5 | 8 | 5 | 10 |
| Sir Ddinbych | 9 | 6.2 | 12 | 7.5 | 0 |
| Sir y Fflint | 2 | 1.4 | 1 | 0.625 | 0 |
| Gwynedd | 63 | 43.2 | 68 | 42.5 | 0 |
| Merthyr Tudful | 1 | 0.7 | 3 | 1.875 | 1 |
| Sir Fynwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Castell-nedd | 1 | 0.7 | 1 | 0.625 | 0 |
| Casnewydd | 1 | 0.7 | 0 | 0 | 1 |
| Sir Benfro | 2 | 1.4 | 3 | 1.875 | 5 |
| Powys | | | 6 | 3.75 | 5 |
| Y Rhondda | 1 | 0.7 | 6 | 3.75 | 2 |
| Abertawe | 4 | 2.7 | 2 | 1.25 | 0 |
| Torfaen | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Bro Morgannwg | | | 2 | 1.25 | 3 |
| Wrecsam | 4 | 2.7 | 4 | 2.5 | 1 |
| | 135 | | 160 | | 40 |

Cerddoriaeth a erys y gelfyddyd fwyaf poblogaidd a archebir - ond gallai hyn fod oherwydd yr ystod ehangach o gynnyrch sydd ar gael.

Erys drama'n boblogaidd (13%) ond mae'n codi i 31% wrth gynnwys drama i bobl ifainc.

| Celfyddyd | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---:|---:|
| Ceilidh -Twmpath | 0 | 6.9 |
| Syrcas | 8.4 | 0.6 |
| Comedi | 4.5 | 8.6 |
| Drama | 20.1 | 13.2 |
| Cerddoriaeth - clasurol | 3.4 | 0.6 |
| Cerddoriaeth - gwerin/gwreiddiau/celtaidd | 21.2 | 29.9 |
| Cerddoriaeth -jas | 0 | 0.6 |
| Cerddoriaeth - caneuon poblogaidd | 12.3 | 2.3 |
| Cerddoriaeth - roc/pop | 5.6 | 2.9 |
| Cerddoriaeth - band pres | 0 | 0.6 |
| Cerddoriaeth - byd | 0.6 | 1.2 |
| Opera | 1.1 | 0.6 |
| Sioeau pypedau | 0 | 3.4 |
| Adrodd straeon | 3.4 | 5.2 |
| Theatr i bobl ifainc | 2.8 | 17.8 |
| Amrywiaeth | 0 | 5.8 |

# 5. Iaith a chyflogaeth yn y celfyddydau

Sgiliau Cymraeg ymhlith staff Cyngor Celfyddydau Cymru

Ar 31 Mawrth 2016 cyflogem 97 o bobl (gan gynnwys 19 o gyflogeion ar gontract cyfnod penodol) ac 88.5 o bobl gyfwerth â llawn amser. Yn 2015/16 roedd 76.7 o bobl gyfwerth â llawn amser. Mae'r cynnydd hwn yn bennaf oherwydd recriwtio tîm o staff ar gontractau cyfnod penodol i ddarparu rhaglen Dysgu Creadigol yn y Celfyddydau. Dechreuwyd recriwtio i'r tîm yng Ngorffennaf 2015 a pharhawyd â'r broses drwy weddill y flwyddyn.

O'r 97 aelod o'r staff, mae 47% yn siarad Cymraeg yn rhugl. Mae hyn yn llai na'n targed o 50%. I sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n llawn â'r Safonau, cynigiwn gyrsiau Cymraeg yn y cynllun Dysgu a Datblygu yn 2016/17. Datblygir y cynllun hwn ar hyn o bryd, gan dynnu manylion o werthusiadau'r staff a'u cynlluniau gwaith. Yn ogystal â hyn, rhoddir ystyriaeth fanwl i ddisgrifiadau swydd yn y dyfodol gan gynnwys gofyniad bod y Gymraeg yn hanfodol/dymunol i sicrhau bod digon o siaradwyr Cymraeg ar draws yr adrannau.

Dengys y siart isod fod y nifer cyfredol o siaradwyr Cymraeg ymhlith y staff yn parhau i leihau. Ond gallwn o hyd ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl y gofyn. Serch hynny, cadwn lygad barcud ar y duedd ar i lawr hon ac aseswn ymgyrchoedd recriwtio yn y dyfodol o ran eu gallu i gadw cydbwysedd ieithyddol priodol ymhlith y staff.

| | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Staff Cymraeg eu hiaith yn ganran o gyfanswm y staff | 64.75 | 66 | 67.25 | 63.75 | 57.3 | 56.3 | 51.2 | 47 |

Interniaethau Cymraeg

Cafwyd dau leoliad Cymraeg yn ystod 2014/15 a dechrau 2015/16 yn Theatr Genedlaethol Cymru. Rheolwr Marchnata a Rheolwr Technegol oedd y rhain. Yn sgil y cyfle datblygu hwn, mae'r Rheolwr Marchnata erbyn hyn yn gyflogai llawn amser gyda'r cwmni. Penderfynodd y Rheolwr Technegol chwilio am gyfleoedd eraill ond mae o hyd yn gweithio ar lefel uwch yng nghelfyddydau Cymru.

Sgiliau Cymraeg ymhlith y sefydliadau sy'n cael arian refeniw

| Cyflogaeth | 2014/15 | 2015/16 | Canran y newid |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y gweithwyr gan gynnwys gwirfoddolwyr | 5,445 | 5,570 | 2.3 |
| Cyfanswm y gweithwyr gan eithrio gwirfoddolwyr | 4,135 | 4,217 | 2 |

| Siaradwyr Cymraeg | 2014/15 | 2015/16 | Canran y newid |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y gweithwyr sy'n siarad Cymraeg | 1,115 | 1,077 | -3.4 |

Ffynhonnell: Arolwg Cyngor Celfyddydau Cymru o'r sefydliadau sy'n cael arian refeniw
Sail: 69 sefydliad yn 2014/15 a 68 sefydliad yn 2015/16

| Byrddau Rheoli | 2014/15 | 2015/16 | Canran y newid |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr aelodau ar y byrddau rheoli | 764 | 728 | -4.7 |


| Siaradwyr Cymraeg | 2014/15 | 2015/16 | Canran y newid |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y siaradwyr Cymraeg ar y byrddau rheoli | 221 | 215 | -2.7 |

Ffynhonnell: Arolwg Cyngor Celfyddydau Cymru o'r sefydliadau sy'n cael arian refeniw
Sail: 69 sefydliad yn 2014/15 a 68 sefydliad yn 2015/16

# Cynllun Gweithredu'r Gymraeg 2015/16 – adroddiad diwedd y flwyddyn

## 1. Creu'r amgylchedd i'r celfyddydau ffynnu

Camau gweithredu cyffredinol - Coch Melyn Gwyrdd




| Cam gweithredu | Mesur | Chwarter 3 | Diwedd y flwyddyn | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Coch Melyn Gwyrdd | Coch Melyn Gwyrdd | Tuedd | Sylwadau |
| 1. Coladu data meincnodi o 2014/15 fel y gallwn sicrhau y galluoga ein strategaeth datblygu'r celfyddydau, Ysbrydoli: creadigrwydd a'r celfyddydau, hyrwyddo cyfleoedd yn gadarnhaol ac ymarferol drwy gyfrwng y Gymraeg | – Sefydlu mesurau llwyddo parthed y Gymraeg ar gyfer effaith Ysbrydoli<br><br>– Coladu data mewnol ac allanol 2014/15 gan gynnwys data cenedlaethol parthed y Gymraeg lle bo hwnnw ar gael | Gwyrdd | Gwyrdd | | Cyflawnwyd y cam gweithredu hwn.<br><br>Coladu Arolwg o'r sefydliadau sy'n cael arian refeniw a chyhoeddi dadansoddiad manwl ar ein gwefan yn chwarter 3.<br><br>O'r holl ddigwyddiadau a gafodd eu cynnal gan sefydliadau sy'n cael arian refeniw, cafodd 872 eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2014/15 sef 4% o'r holl ddigwyddiadau. Roedd 91,154 o fynychiadau i'r digwyddiadau hyn, sy'n cynrychioli 2.3% o'r holl fynychiadau.<br><br>O ran gweithgarwch ymgyfranogol, cafodd 9.1% o'r holl sesiynau (6,268) eu cynnal drwy'r Gymraeg. Cafodd y sesiynau hyn 130,350 o fynychiadau sef 11.6% o'r holl fynychiadau i'r sesiynau ymgyfranogol.<br><br>Coladwyd a chyhoeddwyd data arolwg Omnibws yr Oedolion a'r Plant.<br><br>Dengys Arolwg Omnibws yr Oedolion |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | y cynnydd yn y bwlch mynychu celfyddydol rhwng siaradwyr Cymraeg a'r rhai di-Gymraeg o un pwynt canran a hanner o wahaniaeth yn 2014 i wahaniaeth o dri phwynt canran (2.8) yn 2015 (80.7% i siaradwyr Cymraeg, 77.9% i'r rhai di-Gymraeg).<br><br>O ran plant,<br>am y tro cyntaf er 2011, mae rhagor o blant a phobl ifainc di-Gymraeg yn mynychu'r celfyddydau na rhai Cymraeg yn 2015 (gwahaniaeth o 0.5 pwynt canran). Er bod hyn yn gwyrdroi'r duedd ddiweddar, mae'n galonogol bod y bwlch rhwng y ddau grŵp wedi culhau (y gwahaniaeth oedd 7.6 pwynt canran y llynedd).<br><br>O ran ymgyfranogi o'r celfyddydau,<br>erys siaradwyr Cymraeg (48.9%) yn debycach o ymgyfranogi o weithgareddau celfyddydol na'r rhai na fedrant yr iaith (38.1%). Cynyddodd y bwlch ymgyfranogi rhwng siaradwyr Cymraeg a'r rhai di-Gymraeg yn 2015 i un pwynt canran ar ddeg (10.8) o naw pwynt canran yn 2014.<br><br>Er y bu cynnydd ymgyfranogi blwyddyn-ar-flwyddyn ymhlith plant a phobl ifainc di-Gymraeg (i fyny 7.7 pwynt canran i 87.4%), mae o hyd yn wir yn 2015 fod rhagor o Gymry Cymraeg yn ymgyfranogi (90.3%) na'r rhai di-Gymraeg. |
| 2. Monitro pa mor briodol yw pob polisi, prosiect a chynnig newydd | – Ymgymryd ag adolygiad o'r Gymraeg yn rhan o broses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldebau | Gwyrdd | Gwyrdd | | Cynhwysir ystyriaethau'r Gymraeg yn rhai hanfodol yn ein templed Asesu'r Effaith ar Gydraddoldebau.<br><br>Mae trefniadau ar waith i'r Grŵp adolygu cynnydd yr argymhellion sy'n berthnasol i'r Gymraeg o ganlyniad i'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a lenwyd drwy gydol y flwyddyn. |
| 3. Cydweithio'n agos â grwpiau a sefydliadau Cymraeg i wella cyrraedd ein Sesiynau Cynghori Ariannu fel y gallwn annog ceisiadau gan amrywiaeth ehangach o unigolion Cymraeg eu | – Sefydlu partneriaethau gweithio newydd gyda sefydliadau arbenigol a grwpiau cymunedol Cymraeg<br><br>– Bod y grwpiau hyn yn mynychu ein Sesiynau Ariannu<br><br>– Cynnydd yn nifer y ceisiadau | Melyn | Melyn | | Cynhaliwyd Sesiynau Cyngor am Grantiau mewn gwahanol leoedd yng Nghymru gan gynnwys yr ardaloedd trefol hyn: Abertawe; Casnewydd; Wrecsam. Drwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy farchnata'r digwyddiadau'n |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| hiaith a'r sefydliadau y maent yn eu rhedeg | Cymraeg a dderbynnir (seiliedig ar ffigyrau 2014/15) | | | | eang, anelwn at dargedu cynulleidfa mor eang â phosibl, gan gynnwys artistiaid Cymraeg, a thrwy ein cysylltiadau ein hunain a rhai swyddogion datblygu celfyddydau'r awdurdodau lleol a rhai ein cydweithwyr, byddwn yn sicrhau y cyrhaeddwn yr ystod ehangaf bosibl o artistiaid, ymgeiswyr ac aelodau o'r cyhoedd.<br><br>Ni fu'n bosibl cael casgliad blwyddyn gyflawn o ddata am fynychwyr am y gohirir y sesiynau yn ystod yr Adolygiad Buddsoddi. Serch hynny, ar gyfer 2016/17, archwilia'r Tîm Gwybodaeth ffyrdd newydd o gasglu data a gweithio gyda chydweithwyr yn ein hadran Ymchwil i fapio tueddiadau. |
| 4. Defnyddio partneriaethau a chydweithiadau sydd gennym eisoes i hyrwyddo'n bellach a chodi ymwybyddiaeth a chynyddu cyhoeddusrwydd parthed gweithgarwch celfyddydol Cymraeg | – O leiaf un ymgyrch gyfryngol i hyrwyddo artistiaid/gweithgarwch celfyddydol Cymraeg | Gwyrdd | Gwyrdd | → | Cyflawnwyd hyn.<br><br>Mae ymgyrchoedd hyd yn hyn i hyrwyddo artistiaid a gweithgarwch celfyddydol Cymraeg hyd yn hyn yn cynnwys ein hymgyrch gyfryngol, Gorwelion, yn Ebrill, ein hymgyrch ddigidol i hyrwyddo'r Urdd ym Mai ac ymgyrch gyfryngol i hyrwyddo'r Eisteddfod Genedlaethol yn Awst. |
| 5. Hybu'r Gymraeg yn iaith gymunedol | – Targedu'r Gymraeg yn flaenoriaeth gan brosiectau a mentrau allweddol, gan gynnwys rhaglen Noson Allan.<br><br>– Cynnal cymorthfeydd ariannu mewn cwmpas daearyddol cynrychioliadol ac mewn lleoliadau eraill lle y cynhelir cyfarfodydd cyhoeddus | Melyn | Melyn | → | Ar ddiwedd chwarter 4 y cafwyd 534 o ddigwyddiadau Noson Allan ac o'r rhain roedd 161 perfformiad yn y Gymraeg a 40 yn ddwyieithog, sef 38% o'r perfformiadau gyda darpariaeth Gymraeg ynddynt.<br><br>60% o'r perfformwyr o Gymru. Sicrhawn y cynhelir ein sesiynau cyngor am grantiau ar draws Cymru a hynny'n arfer hanfodol. |

## 2. Cynyddu gwerth y cyfnewid diwylliannol rhyngwladol i gelfyddydau Cymru

Camau gweithredu cyffredinol - Coch Melyn Gwyrdd




| Cam gweithredu | Mesur | Chwarter 3 | Diwedd y flwyddyn | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Coch Melyn Gwyrdd | Coch Melyn Gwyrdd | Tuedd | Sylwadau |
| 6. Galluogi artistiaid sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg i ddatblygu marchnadoedd rhyngwladol newydd ar gyfer eu gwaith | – Presenoldeb o leiaf 4 artist/grŵp Cymraeg mewn digwyddiadau arddangos rhyngwladol yn ystod 2015/16 | Gwyrdd | Gwyrdd | → | Gorgyflawnwyd y targed hwn.<br><br>Cafodd 12 o artistiaid neu sefydliadau Cymraeg arian i fynychu digwyddiadau cyfle arddangos rhyngwladol a chymryd rhan ynddynt gan gynnwys WOMEX, Cyfarfod Theatr Anffurfiol Ewropeaidd yn Ne Corea, NxNE, Wythnos Cerddoriaeth Canada, Ffair a Gŵyl Llyfrau Shanghai.<br><br>Hefyd y gwahoddwyd 4 artist Cymraeg i ddangos eu doniau yng Nghynghrair Gwerin Rhyngwladol ac un yn SxSW. Dangosodd 2 gerddor Cymraeg eu doniau hefyd yng Nghysylltiadau Celtaidd sy'n denu cynulleidfa ryngwladol. |

| 3. Dod o hyd i gyfleoedd, ffyrdd a lleoedd newydd er mwyn i bobl fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau |
|---|

Camau gweithredu cyffredinol - Coch Melyn Gwyrdd




| Cam gweithredu | Mesur | Chwarter 3 | Diwedd y flwyddyn | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Coch Melyn Gwyrdd | Coch Melyn Gwyrdd | Tuedd | Sylwadau |
| 7. Rhoi'r offer ymarferol i artistiaid a sefydliadau celfyddydol i'w helpu i gyrraedd cynulleidfa ehangach a mwy cynrychioliadol | – Cyhoeddi Canllawiau Cydraddoldeb a dolenni i Becyn Cymorth Cymraeg ar ein gwefan<br><br>– Cynnal 3 sesiwn hyfforddi/ymgyfarwyddo yn ystod 2015/16 i gynnwys dogfen y Canllawiau a phob nodwedd warchodedig gan gynnwys y Gymraeg | Gwyrdd | Gwyrdd | | Cyflawnwyd y cam gweithredu hwn. Cyhoeddwyd y Canllawiau Cydraddoldebau yn hwyr ym mis Mawrth a chynhaliwyd tair sesiwn hyfforddi/ymgyfarwyddo yn Ebrill – yn y Gogledd, y De a'r Gorllewin. Cawsant dderbyniad gwresog a chafwyd trafodaeth ddefnyddiol am y materion.<br><br>Cynnwys ein gwefan ddolenni i arweiniad y Gymraeg a gyflwynwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. |
| 8. Sefydliadau sy'n cael arian refeniw i gynyddu nifer y digwyddiadau neu weithgareddau ymgyfranogol Cymraeg targedol a, lle bo eu gweithgarwch yn agored i bawb, eu bod yn ymdrechu cynyddu eu ffigyrau mynychu ac ymgyfranogi | – Coladu data drwy'r atebion i'r Arolwg o'r sefydliadau sy'n cael arian refeniw | Gwyrdd | Gwyrdd | | Cyhoeddi Arolwg o'r sefydliadau sy'n cael arian refeniw a dadansoddiad manwl ar ein gwefan yn chwarter 3.<br><br>O'r holl ddigwyddiadau a gafodd eu cynnal gan sefydliadau sy'n cael arian refeniw, cafodd 872 eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2014/15 sef 4% o'r holl ddigwyddiadau.<br><br>Roedd 91,154 o fynychiadau i'r digwyddiadau hyn, sy'n cynrychioli 2.3% o'r holl fynychiadau.<br><br>O ran gweithgarwch ymgyfranogol, cafodd 9.1% o'r holl sesiynau (6,268) eu cynnal drwy'r Gymraeg. Cafodd y sesiynau hyn 130,350 o fynychiadau sef 11.6% o'r holl fynychiadau i'r sesiynau ymgyfranogol. |

# 4. Datblygu creadigrwydd plant a phobl ifainc


Camau gweithredu cyffredinol - Coch Melyn Gwyrdd




| Cam gweithredu | Mesur | Chwarter 3 | Diwedd y flwyddyn | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Coch Melyn Gwyrdd | Coch Melyn Gwyrdd | Tuedd | Sylwadau |
| 9. Sicrhau bod galluoedd ac anghenion gwahanol blant a phobl ifanc yn cael eu diwallu, ni waeth beth yw eu hiaith, drwy sicrhau nad oes effaith wahaniaethol ar unrhyw blentyn neu berson ifanc sy'n cymryd rhan yn y rhaglenni a'r prosiectau a gychwynnwn | – Cynnwys pob rhaglen a phrosiect ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifainc Cymraeg eu hiaith | Gwyrdd | Gwyrdd | | Terfynolwyd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer e-ddysgu creadigol drwy'r celfyddydau a gynhwysai ystyriaethau'r Gymraeg<br><br>Targedodd ail gam cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ysgolion Cymraeg a chafwyd nifer uwch o geisiadau oddi wrth yr ysgolion hyn. Targedasom hefyd ymarferwyr Cymraeg.<br><br>Nod Sbardun yw mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ymhlith plant a phobl ifainc a monitrir y rhaglen yn agos iawn. Mae arnom angen asesu effaith gydraddoldeb meysydd datblygu eraill megis prosiect gŵyl gelfyddydol ieuenctid a'r Celfyddydau Teuluol - un o'r amcanion newydd a gynhwysir yng ngham 2 yw mynd i'r afael ag anghenion teuluoedd tlotach. |

## 5. Annog arloesedd, gwytnwch a chynaliadwyedd

Camau gweithredu cyffredinol - Coch Melyn Gwyrdd




| Cam gweithredu | Mesur | Chwarter 3 | Diwedd y flwyddyn | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Coch Melyn Gwyrdd | Coch Melyn Gwyrdd | Tuedd | Sylwadau |
| 10. Cynorthwyo Sefydliadau Refeniw i weithredu mewn modd sy'n cydymffurfio'n llwyr â pholisïau'r Gymraeg | – Ystyriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg yn flaenoriaeth hanfodol prosiectau sy'n cael arian y loteri a chytundebau arian refeniw<br><br>– Pob sefydliad sy'n cael arian refeniw i fod â gwefan hollol ddwyieithog yn ystod 2015/16<br><br>– Pob Cwmni Cenedlaethol yn cyhoeddi Polisi'r Gymraeg | Melyn | Melyn | | Cynhwysir ystyriaethau'r Gymraeg yn ein Hamodau Safonol Grant ar gyfer prosiectau grant loteri a chytundebau ariannu refeniw ar gyfer sefydliadau sy'n cael arian refeniw. Mae cydymffurfedd yn cael ei fonitro drwy gyfarfodydd/trafodaethau rheolaidd gyda'n sefydliadau sy'n cael arian refeniw a chydag adroddiadau diweddu ar gyfer grantiau prosiect.<br><br>Ar ddiwedd y flwyddyn, nid oedd gan 3 chleient ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru wefan ddwyieithog ac roedd gwefannau rhai eraill yn rhannol ddwyieithog yn unig. Ar y cyfan cafwyd gwelliannau yn y maes hwn dros y ddwy flynedd diwethaf.<br><br>Cyfeirir at ystyriaethau Cymraeg yn y Cytundebau Ariannu diwygiedig. Disgwyliwn i sefydliadau ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru sy'n ddiffygiol o hyd fynd i'r afael â'r maes a hynny'n flaenoriaeth<br><br>Cyhoeddodd y rhan fwyaf o'n Cwmnïau Cenedlaethol Bolisi Cymraeg. |

## 6. Amddiffyn a thyfu'r arian ar gyfer celfyddydau Cymru


Camau gweithredu cyffredinol - Coch Melyn Gwyrdd




| Cam gweithredu | Mesur | Chwarter 3 | Diwedd y flwyddyn | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Coch Melyn Gwyrdd | Coch Melyn Gwyrdd | Tuedd | Sylwadau |
| 11. Llenwi Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob polisi newydd a'r rhai a ail-ysgrifennir yn sylweddol i sicrhau bod polisïau, gweithdrefnau a phrosiectau Cyngor Celfyddydau Cymru yn cael effaith gadarnhaol ar ein hamcanion cydraddoldebau | – Llenwi Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar adeg drafftio'r polisi ac ymgynghori arnynt fel sy'n briodol<br>– Adolygu Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rheolaidd | Gwyrdd | Gwyrdd | → | Monitra Grŵp Monitro'r Cydraddoldeb Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a lenwyd drwy gydol y flwyddyn i wirio'r cynnydd argymhellion. Cyflwynir Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n berthnasol i'r Gymraeg hefyd i Grŵp Monitro'r Gymraeg i'w hystyried.<br>Cynhwysir holiaduron cydraddoldebau yn rhan safonol o'n gwahoddiadau i dendro. |
| 12. Defnyddio'r data a gasglwn am ystadegau parthed y Gymraeg mewn perthynas â sut y dosberthir ein harian i ddatblygu mentrau targedol i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau a nodir neu unrhyw feysydd a dangynrychiolir | – Dadansoddi data a'i ddefnyddio i borthi ein gwaith datblygu yn y dyfodol<br>– Adrodd ar y cynnydd yn Adroddiad Blynyddol y Gymraeg | Gwyrdd | Gwyrdd | → | Parhawn i ddal data'r Gymraeg o wahanol ffynonellau i'w gynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Gymraeg. Cymeradwyodd Comisiynydd y Gymraeg ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2014/15. Drafftir adroddiad 2015/16 yn hwyrach eleni.<br>Cynhwysodd Hysbyseb Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a gawsom ar 31 Mawrth 2016 ofyniad newydd inni asesu effaith pob prosiect a ariennir gan y Loteri ar y Gymraeg. Ar hyn o bryd ystyriwn ein camau gweithredu mewn ymateb i hyn. |

## 7. Arddangos gwerth y celfyddydau


Camau gweithredu cyffredinol - Coch Melyn Gwyrdd




| Cam gweithredu | Mesur | Chwarter 3 | Diwedd y flwyddyn | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Coch Melyn Gwyrdd | Coch Melyn Gwyrdd | Tuedd | Sylwadau |
| 13. Casglu a hyrwyddo enghreifftiau o arfer da sy'n dangos ymagwedd gadarnhaol tuag at hyrwyddo'r celfyddydau drwy gyfrwng y Gymraeg | – Casglu ac ysgrifennu isafswm o 6 astudiaeth achos<br>– O leiaf 1 ymgyrch yn y cyfryngau sy'n canolbwyntio ar faterion cydraddoldeb | Gwyrdd | Gwyrdd | → | Lluniwyd astudiaethau achos am yr ymarfer gorau a chawsant eu defnyddio yn ystod ein digwyddiadau, Sgwrs Gelf, a hyrwyddai farchnata dwyieithog. Mae'r pecyn gwybodaeth a luniwyd gyda'r uchod ar ein gwefan.<br><br>Canolbwyntiodd yr ymgyrch gyfryngol ar ein presenoldeb yn yr Eisteddfod Genedlaethol a'n partneriaeth gyda Chyngor Gofal Cymru am y celfyddydau a llesiant. |
| 14. Sicrhau bod yr holl brosesau ymgynghori agored yn annog adborth gan siaradwyr a grwpiau Cymraeg eu hiaith | – Sicrhau trafodaethau ac ymgysylltiad drwy gyfrwng y Gymraeg | Gwyrdd | Gwyrdd | → | Cyhoeddir ar yr un pryd bob un o'n hymgynghoriadau yn y ddwy iaith ac anogir ymatebwyr i ateb yn eu dewis iaith. |
| 15. Annog trafodaeth am y rôl y gall y celfyddydau ei chwarae wrth hyrwyddo'r celfyddydau drwy gyfrwng y Gymraeg | – Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys yn un o ddigwyddiadau Sgwrs yn ystod 2015/16 | Gwyrdd | Gwyrdd | → | Roedd derbyniad gwresog i'r digwyddiadau rhanbarthol o Sgwrs a gynhaliwyd yn chwarter 3 am farchnata dwyieithog. Lluniwyd pecyn gwybodaeth yn sgil Sgwrs i helpu sefydliadau i ddatblygu'r agwedd hon ar y gwaith a gellir islwytho'r pecyn o'n gwefan. |

## 8. Gwneud Cyngor y Celfyddydau yn gorff cyhoeddus effeithlon ac effeithiol

Camau gweithredu cyffredinol - Coch Melyn Gwyrdd




| Cam gweithredu | Mesur | Chwarter 3 | Diwedd y flwyddyn | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Coch Melyn Gwyrdd | Coch Melyn Gwyrdd | Tuedd | Sylwadau |
| 16. Darparu gwasanaeth sy'n hollol ddwyieithog yn unol â Safonau'r Gymraeg a'n Cynllun Cymraeg | – Cyhoeddi'r holl ddeunydd allanol corfforaethol mewn print ac ar lein yn ddwyieithog ar yr un pryd<br>– Cofnodi dewis iaith cwsmeriaid i gyfeirio ato wedyn - pob gohebiaeth (gan gynnwys ceisiadau am arian) yn cael ei hateb yn yr iaith wreiddiol.<br>– Tystiolaeth o ddefnyddio'r Gymraeg a darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ymhob digwyddiad Corfforaethol cyhoeddus<br>– Sicrhau bod y pwynt cyswllt cychwynnol cyntaf drwy ein Gwasanaeth Gwybodaeth yn ddwyieithog | Gwyrdd | Gwyrdd | → | Mae pob cyhoeddiad yn ymddangos yn ddwyieithog ac yn cael ei uwchlwytho ar yr un pryd i'r wefan.<br><br>Cofnodi dewis iaith pob cwsmer ar Gifts ac ateb pob gohebiaeth, gan gynnwys ffurflenni ceisio arian, yn iaith wreiddiol ymholiad/cais y cwsmer.<br><br>Cynnwys staff Cymraeg eu hiaith a Saesneg eu hiaith mewn cyfarfodydd asesu. Ateb pob ymgeisydd yn ei ddewis iaith.<br><br>Darparu cyfieithu ar y pryd ymhob digwyddiad cyhoeddus. |
| 17. Adolygu a diwygio Cynllun y Gymraeg i adlewyrchu'r Safonau newydd a ddiffinnir gan Gomisiynydd y Gymraeg | – Sicrhau amlygrwydd priodol i'r Gymraeg, gan gynnwys ein Cynllun Iaith Gymraeg, ar ein gwefan<br>– Sicrhau bod y Cynllun diwygiedig yn cael ei gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg<br>– Briffio'r staff er mwyn iddynt ddeall sut mae hyn yn effeithio ar eu gwaith ac yn ehangach ar y sefydliadau yr ydym yn gweithio â nhw | Gwyrdd | Gwyrdd | → | ıiff Cynllun cyfredol y Gymraeg ei gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg ac mae yn adran y cyhoeddiadau ar ein gwefan. Cyhoeddir unrhyw ddiweddariadau.<br><br>Hysbysiad Cydymffurfedd Safonau'r Gymraeg a dderbyniasom ar 31 Mawrth 2016 roedd gofyniad newydd inni mewn 3 maes allweddol. Ar hyn o bryd ystyriwn ein camau gweithredu mewn ymateb i hyn a chynhwysir hyn mewn dogfen ar wahân i'w hystyried gan y Cyngor ym Mai.<br><br>y cyfamser cynhelir trafodaethau parhaus gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i sicrhau bod pob polisi yn gyfredol a phriodol. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 18. Cyngor y Celfyddydau yn cyflawni ei rwymedigaethau ac yn dangos ymagwedd gadarnhaol tuag at faterion yn ymwneud â'r Gymraeg | – Cyhoeddi Cynllun y Gymraeg, 2015/16<br>– Y cynllun yn cael ei fonitro<br>– Cynhyrchu a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol y Gymraeg ar gyfer 2014/15 | Gwyrdd | Gwyrdd | → | meradwywyd ein cynllun 2015/16 gan y Cyngor ym Mawrth a chyhoeddwyd ef ar ein gwefan.<br><br>onitrir yn chwarterol gynnydd yn ôl ein camau gweithredu a nodwyd yn ein Cynllun Gweithredol Cymraeg ac adroddir arno i Grŵp Monitro'r Gymraeg a'r Cyngor.<br><br>meradwywyd Adroddiad Blynyddol y Gymraeg, 2014/15 gan y Cyngor ym Medi a chan Gomisiynydd y Gymraeg. Cawsom ein Hysbysiad Cydymffurfedd ar 31 Mawrth 2016 ac ar hyn o bryd yr ystyriwn ei oblygiadau. Daw'r Safonau i'w llawn rym cyn belled ein bod ni yn y cwestiwn yn Ionawr 2017. |
| 19. Cyfarfodydd Refeniw Blynyddol yn cael eu cynnal yn newis iaith y Sefydliadau Refeniw | – Pob Cyfarfod Refeniw Blynyddol yn cael ei gynnal yn newis iaith y Sefydliadau Refeniw, a gwasanaethau cyfieithu'n cael eu darparu lle bo'r angen | Gwyrdd | Gwyrdd | → | nhelir pob cyfarfod adolygu blynyddol yn newis iaith y sefydliad sy'n cael arian refeniw gyda chefnogaeth ychwanegol oddi wrth gydweithwyr Cymraeg. Serch hynny dyma un peth a all newid gyda'r Safonau newydd fel y maent ar hyn o bryd ac ystyriwn oblygiad hyn ar ein sefydliad.<br><br>2015 cynhaliwyd 7 cyfarfod adolygu blynyddol drwy gyfrwng y Gymraeg allan o'r 68 a gafwyd ac, o'r 7, hwyluswyd 3 gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.<br><br>ıerwydd ystyriaethau Adolygiad Buddsoddi, nid ymgymerwn â chyfarfodydd adolygu blynyddol yn y flwyddyn ariannol gyfredol. |
| 20. Sicrhau bod gennym nifer priodol o staff sy'n medru'r Gymraeg ar draws y staff | – Sicrhau bod isafswm o 50% o staff yn gallu siarad Cymraeg<br>– Monitro ymgyrchoedd recriwtio yn y dyfodol i sicrhau bod gennym aelodau priodol o staff sy'n medru'r Gymraeg<br>– Cynigir i ymgeiswyr ymhob hysbyseb recriwtio broses ymgeisio hollol ddwyieithog<br>– Pob polisi Adnoddau Dynol a'r deunydd cysylltiedig i fod ar gael mewn fformat dwyieithog<br>– Darparu hyfforddiant i ddysgwyr y Gymraeg a'r rhai sy'n dymuno gwella eu gallu yn y Gymraeg<br>– Diwygio'r broses ymsefydlu | Melyn | Coch | | ıe hwn yn faes allweddol i'w ystyried yn sgil yr Hysbysiad Cydymffurfedd diweddar – a chaiff ei gynnwys mewn dogfen ar wahân ar agenda'r Cyngor ym Mai. Felly israddiwyd y sgôr i fod yn gyson â'r sylwadau yn y ddogfen i'r Cyngor.<br><br>hyn o bryd mae 50% o'r staff yn siarad Cymraeg. Serch hynny gallai gofynion cyfredol y Safonau Darparu Gwasanaeth sydd yn ein Hysbysiad Cydymffurfedd effeithio ar nifer y swyddi yr ystyriwn ar hyn o bryd yn Gymraeg hanfodol. Penna Disgrifiadau Swyddi ofynion Cymraeg. Ar hyn o bryd dim ond 17% o'n disgrifiadau swydd yn pennu'r swyddi'n |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Gymraeg hanfodol. Mae staff dwyieithog ymhob un o'r swyddi hyn.<br><br>hoeddir pob hysbyseb recriwtio'n ddwyieithog a gwahoddir ymgeiswyr i ymateb yn eu dewis iaith. Profir sgiliau Cymraeg yr ymgeiswyr pan gyfwelir â hwy pan gynigiant am swyddi Cymraeg hanfodol.<br><br>hyn o bryd mae rhaglen ar waith o adolygu polisïau perthnasol ag Adnoddau Dynol ac wedyn, fel y gofyn y Safonau, y cyfieithir hwy a chyhoeddir hwy ar Hwb.<br><br>ystod y flwyddyn ni allem ddod o hyd i ddarparwr cyson o wersi Cymraeg ar gyfer y staff. Serch hynny, mae darparu cyfleoedd hyfforddi priodol yn flaenoriaeth a gobeithir rhoi trefniadau newydd ar waith yn y flwyddyn ariannol newydd. Ystyria'r sesiynau hyfforddi hyn sgiliau ysgrifenedig a llafar. Yn y cyfamser cyflwynwyd Cinio Cymraeg - sesiynau Cymraeg anffurfiol mewnol - sy'n rhoi'r cyfle i'r staff ymarfer eu sgiliau Cymraeg gyda chydweithwyr.<br><br>y broses ymsefydlu gyfredol i aelodau newydd o'r staff roedd gwybodaeth am Gynllun y Gymraeg presennol a'i weithdrefnau cysylltiedig. niwyd sesiwn friffio i bob aelod newydd o'r staff a chyhoeddir hi ar ôl cadarnhau'r Safonau. |
| 21. Polisïau a gweithdrefnau caffael nwyddau a gwasanaethau yn deg, yn gyfiawn, yn dryloyw ac yn bodloni gofynion Cynllun y Gymraeg | – Pob Gwahoddiad i Dendro'n annog ymatebwyr i ateb yn eu dewis iaith a gohebir â hwy wedyn yn eu dewis iaith<br><br>– Cynnwys data ac ystadegau yn yr adroddiad blynyddol | Gwyrdd | Gwyrdd | | Cyhoeddi gwahoddiadau i dendro a mynegi diddordeb yn y Gymraeg a'r Saesneg.<br><br>Cynnwys ein telerau tendro a chaffael safonol ystyriaethau'r Gymraeg ac annog darparwyr posibl i ymateb yn eu dewis iaith.<br><br>Rydym yn caffael drwy borthol 'GwerthwchiGymru' a mabwysiadu ei ymarfer caffael. Golyga hyn gyflwyno i'r Cyflenwyr Holiadur a â i'r afael ag ystyriaethauCydraddoldebau, gan gynnwys y Gymraeg. Cynhwyswn yr holiadur hwn yn ein canllawiau ymgynghorol o ran caffael a chomisiynu. Coledir a chynhwysir data'r Gymraeg yn Adroddiadau Blynyddol y Gymraeg. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 22. Sicrhau bod ein systemau TG a'n seilwaith sefydliadol yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg | – Systemau TGCh yn cynnwys opsiwn rhyngwyneb Cymraeg os yw ar gael<br><br>– Y fewnrwyd i ddiwallu gofynion Safonau'r Gymraeg | Gwyrdd | Coch | | Mae hwn yn faes allweddol i'w ystyried yn sgil yr Hysbysiad Cydymffurfedd diweddar – a chaiff ei gynnwys yn ddogfen ar wahân ar agenda'r Cyngor ym Mai. Felly israddiwyd y sgôr i fod yn gyson â'r sylwadau yn y ddogfen i'r Cyngor.<br><br>Rydym yn ymwybodol pa becynnau meddalwedd sydd ar gael yn y Gymraeg ac yn cynnig y dewis hwn yn rhan o'n proses ymsefydlu TGCh. Rydym wedi archwilio gweddill y ceisiadau a'r casgliadau o feddalwedd a ddefnyddir gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac nid oedd yr un yn cynnig fersiwn Gymraeg yn syth o'r blwch fel petai.<br><br>Datblygwyd ein system ceisio grantiau ar-lein i alluogi ffurflenni cyhoeddus i ymddangos yn y Gymraeg. Byddai pob meddalwedd arall yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol gennym i ddatblygu rhyngwyneb Cymraeg. Mae gofynion Cymraeg yn cael eu cynnwys bob tro yr ydym yn ystyried cael meddalwedd newydd. Gellid cynorthwyo nifer o systemau megis Cascade, iPOS ac Expense drwy ddefnyddio meddalwedd trydydd parti (Linguaskin) ond ni all Gifts, cymhwysiad gwasanaethu cleientiaid sy'n waddol, ddefnyddio'r feddalwedd.<br><br>Mae'n meddalwedd fewnrwyd ar gael gyda rhyngwyneb dwyieithog y gall y staff ei ddewis ond byddai'n rhaid ail-godio ac ailddrafftio'r fewnrwyd. Ar hyn o bryd dim ond yn Saesneg y mae'r cynnwys ond dan y Safonau newydd a'n Hysbysiad Cydymffurfedd y bydd yn rhaid inni ddarparu'r holl gynnwys yn ddwyieithog. Byddai'n golygu llawer rhagor o gostau o ran adnoddau a gweinyddu. Tynasom sylw at y ffaith hon yn y gorffennol yn rhan o'n hymateb i archwiliad Comisiynydd y Gymraeg parthed y Safonau, ac rydym wrthi'n ystyried hyn yn ein hymateb i'r Hysbysiad Cydymffurfedd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 23. Cynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn ein gweithle | – Cynnal cyfarfodydd mewnol priodol yn ddwyieithog gyda chymorth gwasanaethau cyfieithu lle bo'r angen | Gwyrdd | Gwyrdd | | Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i gyfarfodydd Grŵp Monitro'r Gymraeg a'r Cyngor hyd yn hyn.<br><br>Byddai estyn y ddarpariaeth hon i gyfarfodydd mewnol eraill yn ddymunol iawn ond bydd raid ystyried hyn o safbwynt y lleihad cyfredol yn ein costau gweithredu, ond byddai'n bosibl wrth gwrs. Serch hynny nid yw'n ofyniad dan ein Hysbysiad Cydymffurfedd cyfredol i gynyddu defnydd y Gymraeg mewn cyfarfodydd mewnol eithr i wneud hynny mewn cyfarfodydd gyda phartïon allanol lle noda'r partïon fod y Gymraeg yn ddewis iaith iddynt. Trafodir yr ystyriaeth hon mewn dogfen ar wahân i'r Cyngor. |
| 24. Adroddwn ar ein cynnydd yn ystod y flwyddyn, gan nodi ein cyflawniadau yn ôl y targedau yn y Cynllun Gweithredu hwn | – Anfon cofnodion Grŵp Monitro'r Gymraeg ymlaen at y Cyngor<br><br>– Cymeradwyo ein Hadroddiad Blynyddol gan Gomisiynydd y Gymraeg | Gwyrdd | Gwyrdd | | Dan ei gylch gorchwyl cyfredol edrydd y Grŵp i'r Cyngor. Mae trefniadau ar waith i gynnwys cofnodion cyfarfodydd y Grŵp ar agenda'r Cyngor<br><br>Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol y Gymraeg, 2014/15 gan y Cyngor ym Medi a chan Gomisiynydd y Gymraeg. |

# Cynllun Gweithredu'r Gymraeg, 2016/17

| 1. Creu'r amgylchedd i'r celfyddydau ffynnu. | | |
|---|---|---|
| **Beth yr ydym yn ceisio ei gyflawni?**<br><br>Rydym am i'n hartistiaid a'n sefydliadau gorau allu creu eu gwaith gorau a'u cynnal eu hunain drwy safon eu gweithgareddau. Mae'n strategaeth gelfyddydol, *Ysbrydoli,* yn cynnwys esboniad manwl o'r pwysigrwydd diwylliannol a welwn yn y broses o hyrwyddo ymgysylltiad pobl â'r celfyddydau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Ein blaenoriaethau fydd y canlynol: ein Hadolygiad Buddsoddi a adfywia ein portffolio presennol o sefydliadau sy'n cael arian refeniw; dechrau rhoi ar waith egwyddorion allweddol ein strategaeth gelfyddydol, *Ysbrydoli*; cefnogaeth i artistiaid unigol a hyrwyddo amgylchedd sy'n annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ar gyfer artistiaid, sefydliadau celfyddydol, ymgyfranogwyr ac aelodau o'r gynulleidfa.<br><br>I gynorthwyo wrth feincnodi a monitro cynnydd yn y maes hwn, casglwn wybodaeth am broffil demograffig y Gymraeg ledled Cymru a'i defnyddio i borthi strategaeth a pholisi. | | |
| **Cam gweithredu** | **Mesur** | **Tîm arweiniol** |
| 1. Monitro'r effaith (cadarnhaol a negyddol) ar yr iaith Gymraeg a gaiff pob newydd polisi, prosiect a chynnig<br><br>Safon 85 | – Ymgymryd ag adolygiad o'r Gymraeg yn rhan o broses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldebau<br><br>– Diwygio templed yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i gynnwys effeithiau cadarnhaol (neu welliannau) cynigion y Gymraeg i'w hystyried yn rhan o'r asesiad | Pob tîm<br><br>Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Ymgyfranogi |
| 2. Sicrhau y diwalla'n llwyr ein proses gyfredol i ymgeisio am grantiau ofynion y Safonau fel y maent yn ein Hysbysiad Cydymffurfedd<br><br>Safonau 68, 68a a 70 | – Diwygio geiriad ar ein gwefan, ein ffurflenni cais a'n canllawiau ariannu i nodi y gellir cyflwyno ceisiadau yn y Gymraeg ac na chânt geisiadau felly eu trin yn llai ffafriol o'u cymharu â'r rhai a gyflwynir yn y Saesneg<br><br>– Sicrhau bod ceisiadau Cymraeg yn cael eu hasesu yn yr un ffordd â'r rhai Saesneg ac nad oes oedi wrth ohebu ag ymgeiswyr oherwydd y Gymraeg | Cyfathrebu/Pennaeth Gwasanaethau Buddsoddi ac Ariannu<br><br>Pennaeth Gwasanaethau Buddsoddi ac Ariannu |

| | | |
|---|---|---|
| | – Rhaid cynnig i ymgeiswyr a wahoddir i gyfweliad i drafod eu cais y dewis o gael eu cyfweld yn y Gymraeg gan ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd os oes angen. | Datblygu'r Celfyddydau/Cyfathrebu |
| 3. Hybu'r Gymraeg yn iaith gymunedol | – Targedu'r Gymraeg gan brosiectau a mentrau allweddol, gan gynnwys rhaglen Noson Allan, yn faes o flaenoriaeth.<br><br>– Cwmpas daearyddol cynrychioliadol o gymorthfeydd ariannu a lleoliadau eraill lle y cynhelir cyfarfodydd cyhoeddus | Datblygu'r Celfyddydau<br><br>Gwasanaethau Gwybodaeth |

## 2. Cynyddu gwerth y cyfnewid diwylliannol rhyngwladol i gelfyddydau Cymru

**Beth yr ydym yn ceisio ei gyflawni?**

Rydym am alluogi artistiaid a sefydliadau celfyddydol sy'n arwain yng Nghymru i wireddu eu huchelgais rhyngwladol drwy ehangu eu gorwelion, annog eu posibiliadau a chysylltu â phartneriaid a marchnadoedd sy'n ysbrydoli. Mewn byd sy'n gweithredu'n gynyddol ar lefel ryngddibynnol a chysylltiedig, rydym am i gelfyddydau Cymru allu gweithredu'n effeithiol ym marchnad y byd.

| Cam gweithredu | Mesur | Tîm arweiniol |
|---|---|---|
| 4. Galluogi artistiaid sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg i ddatblygu marchnadoedd rhyngwladol newydd ar gyfer eu gwaith | – Presenoldeb o leiaf 4 artist/grŵp Cymraeg mewn digwyddiadau arddangos rhyngwladol yn ystod 2016/17 | Celfyddydau Rhyngwladol Cymru |

| 3. Dod o hyd i gyfleoedd, ffyrdd a lleoedd newydd er mwyn i bobl fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau | | |
|---|---|---|
| **Beth yr ydym yn ceisio ei gyflawni?**<br><br>Rydym am annog cynifer o bobl â phosibl yng Nghymru i fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau. Ond nid yw'n fater yn unig o amddiffyn a chadw'r hyn sy'n bodoli eisoes. Rydym eisiau gweld y gweithgareddau celfyddydol yr ydym yn eu cefnogi yn ymestyn allan i drawstoriad ehangach o boblogaeth Cymru - mewn ffyrdd newydd ac mewn lleoedd newydd a thrwy gyfrwng y ddwy iaith - gan gyrraedd pobl sydd wedi wynebu rhwystrau o ran mynychu a chymryd rhan yn y celfyddydau yn y gorffennol. | | |
| Cam gweithredu | Mesur | Tîm arweiniol |
| 5. Sefydliadau ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru i gynyddu nifer y digwyddiadau neu weithgareddau ymgyfranogol Cymraeg targedol a, lle bo eu gweithgarwch yn agored i bawb, eu bod yn ymdrechu i gynyddu eu ffigyrau mynychu ac ymgyfranogi | – Coladu data drwy'r atebion i'r Arolwg o Bortffolio Celfyddydol Cymru | Ymgysylltu ac Ymgyfranogi<br><br>Datblygu'r Celfyddydau |

| 4. Datblygu creadigrwydd plant a phobl ifainc |
|---|
| **Beth yr ydym yn ceisio ei gyflawni?**<br><br>Rydym am gael rhagor o blant a phobl ifainc ledled Cymru i ymwneud yn weithredol â gweithgarwch creadigol o safon. Bid a fo am yr amgylchiadau y mae'r plant a'r bobl ifainc yn eu hwynebu, hoffwn i'n holl bobl ifainc gael y cyfle i ddatblygu eu talentau (gan gynnwys hyd at lefel estynedig o gyrhaeddiad).<br><br>Mae Creawdwyr Ifainc – ein strategaeth i ddatblygu'r celfyddydau a phobl ifainc – yn ein hymrwymo i sicrhau bod cyfleoedd i ymgysylltu â'r celfyddydau ar gael i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Mae gan blant a phobl ifainc wahanol<br>sgiliau, gwahanol alluoedd a gwahanol anghenion. Yn ein holl raglenni byddwn yn sicrhau bod pob un o'r anghenion a'r galluoedd hyn yn cael eu diwallu.<br><br>Blaenoriaeth allweddol fydd gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar weithredu'r Adolygiad o'r Celfyddydau ac Addysg, Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. |

| Cam gweithredu | Mesur | Tîm arweiniol |
|---|---|---|
| 6. Gwerthuso darpariaeth gweithgarwch a chyrraedd y Gymraeg, drwy Ddysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, gan gynnwys y canlynol<br>a. nifer y ceisiadau Cymraeg<br>b. nifer yr Asiantiaid Creadigol Cymraeg | – Dengys ffigyrau fod y ganran yn gymaradwy o ran ysgolion sy'n ymwneud â gweithgarwch Cymraeg a nifer yr ysgolion Cymraeg yng Nghymru | Ymgysylltu ac Ymgyfranogi |

## 5. Annog arloesedd, gwytnwch a chynaliadwyedd

**Beth yr ydym yn ceisio ei gyflawni?**

Rydym am ddarparu strategaeth ar gyfer Cyngor y Celfyddydau, ac ar gyfer celfyddydau Cymru, sy'n annog arloesedd ac entrepreneuriaeth ac sy'n galluogi gwaith ein hartistiaid a'n sefydliadau celfyddydol i fynd yn fwy gwydn a chynaliadwy.

Serch hynny, mae ein diffiniad o gynaliadwyedd yn un eang ac mae'n cynnwys yr agweddau ar les amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Nodwedd allweddol o hyn, yn ôl y tebyg, fyddai'r graddau y mae sefydliadau celfyddydol wedi'u hymsefydlu yn eu cymunedau lleol, gan hybu gweithgarwch sy'n ymgysylltu ag unigolion a'u cyrraedd ar draws holl rychwant y gymdeithas.

Bydd y gwaith yr ydym yn ymroddedig i ymgymryd ag ef yn y maes hwn yn fuddiol i iechyd ac economi Cymru a gallai gynhyrchu rhagor o gyfleoedd gwaith i artistiaid a sefydliadau celfyddydol Cymraeg eu hiaith.

| Cam gweithredu | Mesur | Tîm arweiniol |
|---|---|---|
| 7. Cynorthwyo sefydliadau ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru i weithredu mewn modd sy'n cydymffurfio'n llwyr â pholisïau'r Gymraeg | – Ystyriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg yn flaenoriaeth hanfodol mewn prosiectau sy'n cael arian y loteri a chytundebau arian | Gwasanaethau Buddsoddi ac Ariannu<br>Grŵp Monitro’r Gymraeg |
| | – Pob sefydliad ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru i gynnal gwefan hollol ddwyieithog yn ystod 2016/17 | Gwasanaethau Buddsoddi ac Ariannu |
| | – Pob Cwmni Cenedlaethol i gyhoeddi Cynllun Gweithredu'r Gymraeg | |

## 6. Amddiffyn a thyfu'r arian ar gyfer celfyddydau Cymru

**Beth yr ydym yn ceisio ei gyflawni?**

Mae celfyddydau Cymru yn cael eu cynnal gan ystod o wahanol sefydliadau sy'n cyfrannu arian, adnoddau ac arbenigedd. Serch hynny, mae pwysau ar ariannu (yn enwedig yn y sector cyhoeddus) gyda'n hawdurdodau lleol yn enwedig yn wynebu anawsterau cynyddol anhawster wrth gynnal eu lefelau presennol o ariannu hyd yn oed. Ein blaenoriaeth yn ystod 2015/16 fydd adeiladu'n bellach ar ein hymgyrch eiriolaeth sydd gyda'r nod o amddiffyn buddsoddiad yr awdurdodau lleol yn y celfyddydau.

Mae data a thystiolaeth yn ein galluogi i fonitro pa mor effeithiol yr ydym yn gweithio. Bydd gwella ein sail dystiolaeth yn flaenoriaeth yn ystod 2015/16.

| Cam gweithredu | Mesur | Tîm arweiniol |
|---|---|---|
| 8. Defnyddio'r data a gasglwn ar ystadegau Cymraeg am sut y dosberthir ein harian i asesu'r effaith pob grant a roddwn<br>a. ar y Gymraeg<br>b. datblygu mentrau targedol i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau a nodir neu unrhyw ardaloedd a dangynrychiolir<br><br>Safon 90 | – Diwygio'r Adroddiad Diweddu cyfredol i gynnwys gofyniad ychwanegol (a)<br><br>– Dadansoddi data a'i ddefnyddio i borthi ein gwaith datblygu yn y dyfodol<br><br>– Adrodd ar y cynnydd yn Adroddiad Blynyddol y Gymraeg | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Buddsoddi ac Ariannu<br><br>Adran Ymchwil<br><br>Prif Weithredwr |

## 7. Arddangos gwerth y celfyddydau

**Beth yr ydym yn ceisio ei gyflawni?**

Rydym am hyrwyddo'r syniad bod celfyddydau Cymru yn gadarnhaol ac ymgysylltiol gan sicrhau bod y sector celfyddydol a'r cyhoedd yng Nghymru yn deall beth y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ceisio ei gyflawni.

| Cam gweithredu | Mesur | Tîm arweiniol |
|---|---|---|
| 9. Sicrhau bod pob ymchwil a gomisiynir/yr ymgymerir â hi i | – Cynnwys ystyriaeth yn rhan hanfodol o'r ymchwil | Ymchwil |

| | | |
|---|---|---|
| fynd i'r afael â phenderfyniad polisi yn cynnwys ystyriaeth o'r canlynol<br>a. Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg<br>b. Nid yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg<br><br>Safonau 91, 92 a 93 | | |
| 10. Sicrhau bod yr holl brosesau ymgynghori agored yn<br><br>a. annog adborth gan siaradwyr a grwpiau Cymraeg eu hiaith<br>b. Cynnwys ystyriaeth o sut y gellid llunio'r cynnig i gynnwys cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na thrinnir y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg<br><br>Safon 88 | – Sicrhau trafodaethau ac ymgysylltiad drwy gyfrwng y Gymraeg<br><br>– Cynnwys ystyriaeth yn rhan hanfodol o'r ymgynghoriad | Cyfathrebu |

## 8. Gwneud Cyngor y Celfyddydau yn gorff cyhoeddus effeithlon ac effeithiol

**Beth yr ydym yn ceisio ei gyflawni?**

A ninnau'n gorff cyhoeddus, mae gennym gyfrifoldeb i greu sefydliad cryf a hyderus sy'n darparu gwasanaethau sy'n berthnasol a defnyddiol. Darparu gwasanaethau proffesiynol ar draws ystod o ddisgyblaethau. Yn ogystal ag anelu am safon wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn, rydym yn ymroddedig i'w chyrraedd mewn ffyrdd sy'n lleihau'r gost gan gydnabod hefyd ein cyfrifoldeb i ddod yn sefydliad sy'n fwy cynaliadwy'n amgylcheddol.

Un o ddangosyddion allweddol ein heffeithiolrwydd a'n heffeithlonrwydd yw'r graddau rydym yn gallu cyrraedd safonau uchel o wasanaeth cyhoeddus pa bynnag iaith a ddefnyddiwn.

| Cam gweithredu | Mesur | Tîm arweiniol |
|---|---|---|
| 11. Darparu gwasanaeth sy'n hollol ddwyieithog yn unol â Safonau'r Gymraeg a'n Cynllun Cymraeg<br><br>Safon 30 | – Cyhoeddi'n ddwyieithog ac ar yr un pryd bob deunydd corfforaethol allanol, gan gynnwys deunydd arddangos, mewn print, cyflwyniadau cyhoeddus (gan gynnwys | Cyfathrebu |

| | | |
|---|---|---|
| Safonau 2, 3, 7, 8, 9, 14 | cyflwyniadau PowerPoint)<br>– a ffurflenni ar-lein | |
| | – Diwygio tudalennau gwe a phenawdau llythyr i gynnwys datganiad cyffredinol sy'n gwahodd y derbynwyr i ohebu/ffonio yn y Gymraeg neu'r Saesneg ac sy'n nodi na fydd gohebu/ffonio yn Gymraeg yn golygu oedi | Cyfathrebu |
| | – Cofnodi dewis iaith cwsmeriaid i gyfeirio ato wedyn - pob gohebiaeth (gan gynnwys ceisiadau am arian) yn cael ei hateb yn yr iaith wreiddiol. | Gwasanaethau Buddsoddi ac Ariannu |
| Safonau 8, 20 | – Tystiolaeth o ddefnyddio'r Gymraeg a darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ymhob digwyddiad Corfforaethol cyhoeddus | Cyfathrebu |
| Safon 9 | – Bydd pob aelod o'r staff yn cyfarch yn ddwyieithog a darparu unrhyw hyfforddiant angenrheidiol | Adnoddau Dynol |
| Safon 21 | – Rhoi gwybod i bawb sy'n ein ffonio ar ein prif rif ffôn fod gwasanaeth Cymraeg ar gael | Tîm Gwybodaeth |
| Safonau 24, 24a, 25, 25a, 25ch | – Wrth gysylltu ag unigolyn neu ei ffonio am y tro cyntaf, bydd y staff yn gofyn am ei ddewis iaith a'i gofnodi i gyfeirio at y cofnod yn y dyfodol. | Adnoddau Dynol/Cyfathrebu |
| Safon 54 | – Wrth wahodd unigolion i gyfarfod am y tro cyntaf, bydd y staff yn gofyn am eu dewis iaith a'i gofnodi i gyfeirio at y cofnod yn y dyfodol a threfnu i'r cyfarfod hwnnw wasanaeth cyfieithu ar y pryd os bydd o leiaf 10% o'r mynychwyr yn nodi'r Gymraeg yn ddewis iaith | |

| | | |
|---|---|---|
| | – Bydd pob ffrwd drydar gorfforaethol a gychwynnir gan unrhyw un o'n meysydd busnes yn ddwyieithog gan gynnwys Celfyddydau Cymru, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a Noson Allan | Uwch Tîm Rheoli/Cyfathrebu |
| 12. Adolygu a diwygio Cynllun y Gymraeg i adlewyrchu'r Safonau newydd a ddiffinnir gan Gomisiynydd y Gymraeg<br><br>Safon 94, 150, 151, 156, 157, 159, 162 | – Sicrhau bod y Cynllun diwygiedig yn cynnwys polisi am ddefnyddio'r Gymraeg yn ein gweithle<br><br>– Bydd y Cynllun diwygiedig yn cynnwys ystyriaeth o ymdrin â chwynion Cymraeg a chydymffurfio â'r Safonau<br><br>– Sicrhau bod y Cynllun diwygiedig yn cael ei gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg<br><br>– Llunio polisi a'i gyhoeddi ar ein mewnrwyd<br><br>- Briffio'r staff er mwyn iddynt ddeall sut mae hyn yn effeithio ar eu gwaith ac yn ehangach ar y sefydliadau yr ydym yn gweithio â nhw | Cyfathrebu<br><br>Prif Weithredwr<br><br>Prif Weithredwr w |
| 13. Cyngor y Celfyddydau yn cyflawni ei rwymedigaethau ac yn dangos ymagwedd gadarnhaol tuag at faterion yn ymwneud â'r Gymraeg<br><br>Safon 149, 161, 163, 165<br><br>Safon 152, 153, 155, 158, 164, 167 | – Cyhoeddi Cynllun y Gymraeg, 2016/17<br><br>– Y Cynllun yn cael ei fonitro<br><br>– Dogfennu tystiolaeth am ein cynnydd wrth gydymffurfio â'n Safonau a gyhoeddir ar ein gwefan<br><br>– Llunio a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol y Gymraeg ar gyfer 2015/16 sy'n cynnwys tystiolaeth o gydymffurfedd â'r Safonau, cofnodion, llunio polisïau a chwynion Cymraeg | Prif Weithredwr<br><br>Grŵp Monitro<br><br>Prif Weithredwr ŵ w<br><br>Grŵp Monitro |

| | | |
|---|---|---|
| 14. Diwallu'n llwyr Safonau'r Gymraeg o ran recriwtio staff<br><br>Safon 133, 135 | – Bydd pob hysbyseb yn dweud y gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg ac na chânt y ceisiadau eu trin yn llai ffafriol na'r Saesneg<br><br>– Gedy pob ffurflen gais i'r ymgeisydd ddewis un ai cyfweliad Cymraeg neu Saesneg ac y gellir defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os yw'n briodol | Adnoddau Dynol w<br><br>Adnoddau Dynol |
| 15. Sicrhau bod gennym nifer priodol o staff sy'n medru'r Gymraeg ar draws y staff<br><br>Safon 147<br><br>Safonau 123, 145<br><br>Safon 126-127, 146<br><br>Safon 145<br><br>Safon 128 | – Sicrhau bod isafswm o 50% o'r staff yn gallu siarad Cymraeg<br><br>– Cadw copïau o asesiadau o ofynion sgiliau Cymraeg am bob swydd<br><br>– Cynigir i ymgeiswyr ymhob hysbyseb recriwtio broses ymgeisio hollol ddwyieithog<br><br>– Asesiad blynyddol o sgiliau Cymraeg pob gweithiwr<br><br>– Cynigir i ymgeiswyr ymhob hysbyseb recriwtio broses ymgeisio hollol ddwyieithog<br><br>– Diwygio'r broses ymsefydlu i gynnwys ymwybyddiaeth o ddiwylliant a hanes Cymru, y Safonau a'r defnydd o Gymraeg yn y gweithle | Adnoddau Dynol<br><br>Adnoddau Dynol<br><br>Adnoddau Dynol<br><br>Adnoddau Dynol<br><br>Adnoddau Dynol<br><br>Adnoddau Dynol |
| 16. Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau yn deg, yn gyfiawn ac yn bodloni gofynion Cynllun y Gymraeg<br><br>Safon 75 | – Pob Gwahoddiad i Dendro'n annog ymatebwyr i ateb yn eu dewis iaith a gohebir â hwy wedyn yn eu dewis iaith<br><br>– Cynnig i bob ymgeisydd a gaiff gyfweliad o ganlyniad i ymarfer tendro y dewis o gael eu cyfweliad yn Gymraeg gan ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os oes angen | Pennaeth TGCh a Seilwaith<br><br>Cyfathrebu |

| | | |
|---|---|---|
| | – Cynnwys data ac ystadegau yn yr adroddiad blynyddol | Pennaeth TGCh a Seilwaith |
| 17. Sicrhau bod ein systemau TG a'n seilwaith sefydliadol yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg<br><br>Safonau 116, 121<br><br>Safon 66 | – Cynnwys systemau TGCh ddewis o ryngwyneb yn y Gymraeg a gwirydd sillafu/gramadeg pan fônt ar gael<br><br>– Cynnwys tudalennau'r fewnrwyd ddeunydd cefnogi Cymraeg i'r staff i'w helpu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle<br><br>– Pob hysbysiad mewnol i'w harddangos yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf | Pennaeth TGCh a Seilwaith<br><br>Cyfathrebu<br><br>Rheolwr Cyfleusterau |
| 18. Sicrhau bod y dewisiadau Cymraeg am yr ystyriaethau Adnoddau Dynol canlynol ar gael i'r staff:<br>a. Contractau cyflogaeth<br>b. Unrhyw ohebiaeth bapur ynghylch cyflogaeth unigolyn<br>c. Gofynion hyfforddiant<br>d. Perfformiad a gwerthusiad<br>e. Cofnodion o absenoldeb gan gynnwys salwch a gwyliau blynyddol<br>f. Pob polisi Adnoddau Dynol gan gynnwys cwynion mewnol<br>g. Cyfarfodydd gydag Adnoddau Dynol i drafod materion cysylltiedig<br><br>Safonau 95-115 | – Diwygio polisïau Adnoddau Dynol i gynnwys y geiriad bod dewisiadau Cymraeg erbyn hyn ar gael<br><br>– Cyfieithu a chyhoeddi ar Hwb dempledi a pholisïau cyfredol Adnoddau Dynol<br><br>– Bydd y staff yn ymwybodol bod y dewisiadau Cymraeg ar gael i'r rhai sydd eu heisiau<br><br>– Bydd meddalwedd Adnoddau Dynol ar gael yn ddwyieithog<br><br>– Cynnal cyfarfodydd ag Adnoddau Dynol i drafod materion cysylltiedig yn newis iaith yr aelod o'r staff | Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau<br><br>Pennaeth TGCh a Seilwaith |